

Rhannu arfer gorau: Prosiect Carbon Cadarnhaol

Ar gais Llywodraeth Cymru, a dan eu nawdd, rydym yn gweithio i fod yn batrwm o reoli carbon ac rydym wedi ymrwmo i rannu ein dysgu gydag eraill er mwyn cefnogi newid Cymru i economi carbon isel.

Mae'r [Prosiect Carbon Cadarnhaol](#) wedi gwerthuso ein statws carbon net, gan gyfrif am atafaeliad carbon ac allyriadau nwyon tŷ gwydr ar draws ein hystâd reoledig gyfan. Mae'r cynefinoedd YGLIC a'r cynefinoedd mawndir yn ffurfio oddeutu 84% o'r ystâd a reolir gennym ac yn cyfrannu'n sylweddol at ei 'statws carbon cyffredinol'. Comisiynwyd [Forest Research](#) gennym i wneud y gwaith.

#BeCarbonPositive

Ar gyfer YGLIC, edrychodd y prosiect ar:

- Allyriadau carbon deuocsid a gwarediadau yn sgil newidiadau stoc carbon yn y coed, sbwriel a phridd yr YGLIC a chynhyrchion pren a gynaeafwyd (*HWP*)
- Y prif allyriadau nwyon tŷ gwydr (GHG) sy'n deillio o weithrediadau coetir (sefydlu coed, rheoli coetiroedd a chynaeafu).

Ar gyfer blwyddyn sylfaen yr astudiaeth (2015), amcangyfrifwyd bod stociau carbon yn y coed, coed marw/sbwriel a phriddoedd sy'n gysylltiedig ag YGLIC a *HWP* o'r ystâd yn 26.6 MtC (miliwn tonnell o garbon). Mae oddeutu 50% o'r stociau carbon mewn pridd coetir, 30% mewn coed, 15% yn *HWP* a'r 5% sy'n weddill mewn coed marw a sbwriel.

O dan senario busnes fel arfer ar gyfer cyfansoddiad a rheoli coetiroedd, fel y'i diffinnir yn yr astudiaeth, rhagwelir erbyn 2040 y bydd cyfanswm y stociau carbon sy'n gysylltiedig â'r YGLIC yn cynyddu i 29.5 MtC, cynnydd o 2.9 MtC yn erbyn y flwyddyn sylfaen. Mae tua 64% o'r cynnydd a ragwelir mewn stociau carbon coetiroedd yn deillio o grynhoi stociau carbon mewn coed, gyda 28% pellach yn cyfrannu trwy gronni stociau carbon pridd.

Bydd gwell dealltwriaeth o stociau carbon sy'n gysylltiedig ag YGLIC yn ein cynorthwyo i gynllunio sut y gallwn ni eu rheoli orau er mwyn diogelu stociau carbon presennol a gwella'r broses atafael. Mae gwaith ar y gweill i gynhyrchu rhaglen waith wedi'i chostio a'i blaenoriaethu, gan symud ymlaen, a [rhannu gwybodaeth](#) â'r sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru.

Yn ddiweddar, rydym wedi cynhyrchu crynodeb [ffeithlun](#) o'r prosiect.

Ar Drywydd Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy:

